

Adroddiad Blynyddol Y Monitor Annibynnol 2023



Independent
Monitor

Cyflwyniad



Dyma unfed Adroddiad Blynyddol ar ddeg y Monitor Annibynnol (IM) ar gyfer y drefn Datgelu a Gwahardd. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu Ionawr i Ragfyr 2023.

Nid oes unrhyw argymhellion Newydd yn Adroddiad Blynyddol 2023. Darperir adroddiad cynnydd llawn sr bob argymhelliad IM blaenorol isod. Ysgrifennodd y cyn Weinidog Diogelu ataf ar 13 Gorffennaf 2023 gyda'i hymateb i fy Adroddiad Blynyddol 2022. Cyhoeddwyd llythyr y Gweinidog ag Adroddiad y llynedd.

Trosolwg o'r flwyddyn

Eleni gwelwyd cynnydd arall yn y galw ar draws y drefn ddatgelu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan barhau ar ôl y cynnydd yn y galw y llynedd. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn adrodd eu bod wedi cael cynnydd o 6.95% yn 2023 yn nifer y Tystysgrifau Cofnod Troseddol Manwl a roddwyd gyda 'gwybodaeth ychwanegol' wedi'i datgelu. Er bod AccessNI (ANI) yn nodi cynnydd o 5.71% yn y galw am Dystysgrifau Manylach eleni. Fy sylw yw bod y drefn ddatgelu yn ei chyfanrwydd yn parhau i ymateb yn dda i'r cynnydd hwn o flwyddyn i flwyddyn mewn galwadau gweithredol.

Atgyfeiriadau IM

Yn 2023, gwnaed cyfanswm o 5,081 o ddatgeliadau "gwybodaeth ychwanegol" ar Dystysgrifau Cofnod Troseddol Manwl a gyhoeddwyd gan y DBS. Gwnaeth AccessNI 316 o ddatgeliadau Tystysgrif Manylach, gan wneud cyfanswm o 5,397 o benderfyniadau datgelu cadarnhaol.

Fe wnaeth y DBS atgyfeirio 148 o achosion anghydfod datgelu i swyddfa'r Monitor Annibynnol yn 2023, tra cyfeiriodd AccessNI un anghydfod am adolygiad annibynnol. Mae hyn yn golygu bod anghydfod ynghylch 149 o achosion anghydfod, neu 2.76% o'r holl ddatgeliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon y llynedd a gafodd eu hatgyfeirio at fy swyddfa i gael adolygiad IM. Fel cymhariaeth, yn 2022 roedd anghydfod ynghylch cyfanswm o 129 o achosion (h.y., 2.54%) o'r holl ddatgeliadau manylach a wnaed ar draws y tair Gwlad Gartref ac fe'u hatgyfeiriwyd wedyn ar gyfer fy adolygiad.

Gogledd Iwerddon

Fe wnaeth Deddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2015 ymestyn rôl y Monitor Annibynnol i gynnwys yr adolygiad o anghydfodau datgelu a wnaed yng Ngogledd Iwerddon. Fel y nodwyd uchod, atgyfeiriwyd un achos o anghydfod gan AccessNI ar gyfer fy adolygiad annibynnol eleni.

Fel rhan o'm dyletswyddau statudol, rwyf hefyd wedi adolygu sampl o ddeg achos datgelu a ddewiswyd ar hap o Gogledd Iwerddon eleni. Nodwyd rhai pwyntiau dysgu drwy'r ymarfer hwn, ond dim pryderon sylweddol. Mae adborth manwl o'r ymarfer samplu hwn wedi'i ddarparu i Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon i'w ystyried.

Samplu Achosion Datgelu yng Nghymru a Lloegr

Fel sy'n ofynnol o dan adran 119B o Ddeddf yr Heddlu 1997, rwyf hefyd wedi cynnal ymarfer samplu ar hap o benderfyniadau datgelu a wnaed gan heddluoedd ledled Cymru a Lloegr yn 2023.

Fe wnes i samplu cyfanswm o hanner cant o benderfyniadau datgelu a ddewiswyd ar hap eleni, a dynnwyd o bum heddlu gwahanol ledled Cymru a Lloegr. Mae hyn yn ychwanegol at y sampl o achosion o Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon y cyfeiriwyd atynt uchod.

Ar ôl ystyried pob achos yn ofalus, nodwyd pwyntiau dysgu perthnasol drwy'r ymarfer hwn, ond ni nodwyd unrhyw bryderon sylweddol. Rwyf wedi rhoi adborth unigol i bob un o'r heddluoedd dan sylw, er mwyn iddynt ei ystyried. Rwyf hefyd wedi rhannu'r holl ddysgu generig o'r ymarfer samplu hwn drwy'r Fforwm Datgelu Cenedlaethol ac yn fwy lleol drwy'r Fforymau Datgelu Rhanbarthol.

Adolygiadau Barnwrol

Adolygiad Barnwrol yw'r ateb terfynol sydd ar gael i unrhyw un sy'n anghytuno â'r wybodaeth a ddatgelwyd gan yr heddlu ar eu Tystysgrif Cofnod Troseddol Manylach. Ni fu unrhyw Adolygiad Barnwrol yn ymwneud â'r Monitor Annibynnol eleni.

Amseroldeb Trin Anghydfodau Datgelu IM

Mae'r Canllawiau Datgelu Statudol yn nodi y dylid gwneud penderfyniadau datgelu mewn modd amserol. Rwy'n parhau i roi sylw manwl i ba mor gyflym y mae anghydfodau datgelu gwybodaeth yn cael eu datrys. Rhennir y cyfrifoldeb hwn ar wahanol adegau rhwng y DBS/ANI, yr heddlu a fy swyddfa fy hun.

Mae'n bleser gennyf adrodd y bu gwelliant pellach o ran amseroldeb trin anghydfodau'r IM eleni. Mae hyn yn adeiladu ar welliannau a wnaed eisoes yn y ddwy flynedd flaenorol. Yn 2023, nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gymerwyd gan yr heddlu i gwblhau eu hadolygiad ar gam cyntaf y broses anghydfod oedd 22.5 diwrnod. Yn 2022 yr amser cyfartalog a gymerwyd oedd 43 diwrnod ac yn 2021 y cyfartaledd oedd 67 diwrnod.

Canllawiau Datgelu Statudol Diwygiedig y Swyddfa Gartref

Drwy gydol 2023 fe wnaeth y Swyddfa Gartref gynnal ymarfer ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys fi fy hun, ynghylch y Canllawiau Datgelu Statudol. Yn dilyn yr ymarfer ymgynghori ac adolygu hwn, cyhoeddwyd Pedwerydd Argraffiad Canllawiau Datgelu Statudol y Swyddfa Gartref ar 14 Chwefror 2024¹.

¹ <https://www.gov.uk/government/publications/statutory-disclosure-guidance>

Argymhellion o Adroddiadau Blynyddol IM Blaenorol

Mae'r tabl yn Atodiad B yn crynhoi'r holl argymhellion IM blaenorol.

Crynoir cynnydd ar unrhyw argymhellion sy'n weddill isod:

Adroddiad Blynyddol 2014

Fe wnaeth yr IM argymhelliad yn Adroddiad Blynyddol 2014: 'I gyflwyno amserlen ffurfiol (o dri mis) i ymgeisydd wrthwynebu datgelu gwybodaeth ar Dystysgrif Cofnodion Troseddol Manylach'.

Adroddiad cynnydd

Gwnaed yr argymhelliad hwn yn wreiddiol gan fy rhagflaenydd bron i ddeng mlynedd yn ôl. Fodd bynnag, byddai angen newid y ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn cyflawni newid ffurfiol i'r broses anghydfod fel hwn ac nid oes unrhyw gyfle wedi codi yn y degawd diwethaf i ddiwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol drwy Ddeddf Seneddol.

Ar ôl sawl blwyddyn heb unrhyw gynnydd i'w adrodd ynglŷn â'r argymhelliad hwn, mae'r Canllawiau Datgelu Statudol diwygiedig (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024) bellach yn darparu gwybodaeth ynghylch ymdrin ag 'anghydfodau y tu allan i amser' yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Canllawiau Statudol diwygiedig yn atgoffa ymgeiswyr y 'dylid codi unrhyw anghydfod ynghylch datgelu gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn Tystysgrif Cofnod Troseddol Manylach gyda'r DBS o fewn tri mis i ddyddiad cyhoeddi'r dystysgrif'. Er y byddai newid i'r ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol yn dal i fod yn fuddiol, mae'r ychwanegiad newydd at y Canllawiau Statudol ar bwnc 'anghydfodau y tu allan i oriau' yn ddatblygiad i'w groesawu.

I grynhoi, mae'r argymhelliad hwn yn dal yn berthnasol ac yn cael ei gefnogi gan yr holl randdeiliaid allweddol. Fodd bynnag, gan gydnabod na fu'n bosibl gweithredu'r argymhelliad hwn hyd yma, ni chredaf ei bod yn briodol ei gadw ar agor am gyfnod amhenodol. Felly, rwyf wedi cau'r argymhelliad hwn fel un 'rhannol gyflawn' gyda chyhoeddi Canllawiau Datgelu Statudol 2024. Pe bai cyfle yn codi yn y dyfodol i newid y ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol sy'n ymwneud ag anghydfodau y tu allan i amser, rwy'n hyderus y byddai'r Monitor Annibynnol yn cymryd rhan lawn wrth ystyried unrhyw newid deddfwriaethol arfaethedig newydd.

Ymgysylltu

Drwy gydol 2023 rwyf wedi parhau i ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, drwy gyfarfodydd ar-lein ac wyneb yn wyneb. Er enghraifft, ym mis Mai 2023 cefais y pleser o ymweld ag AccessNI, ac Uned Datgelu Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon. Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd Cenedlaethol a Rhanbarthol yr heddlu yn rheolaidd ac yn aelod o Grŵp Portffolio Datgelu NPCC. Rwy'n siarad yn rheolaidd ag arweinwyr polisi a gweithredol o'r Swyddfa Gartref, DBS, ANI, NPCC ac unedau datgelu'r heddlu i nodi unrhyw faterion neu bryderon parhaus.

Ysgrifenyddiaeth y Monitor Annibynnol

Mae'r Ysgrifenyddiaeth IM yn gweinyddu'r llwyth achosion IM ac yn darparu cymorth cyffredinol i swyddfa'r Monitor Annibynnol. Rwy'n werthfawrogol iawn o ymroddiad parhaus, gwaith caled a hyblygrwydd Ysgrifenyddiaeth y Monitor Annibynnol eleni.

Crynodeb a Chasgliad

Mae fy holl swyddogaethau statudol fel y Monitor Annibynnol wedi'u cyflawni'n llwyddiannus trwy gydol y flwyddyn.

Yn 2023, atgyfeiriwyd cyfanswm o 149 o achosion anghydfod datgelu i swyddfa'r Monitor Annibynnol ar gyfer fy adolygiad annibynnol. Dyma'r nifer uchaf o atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan fy swyddfa mewn blwyddyn galendr ers 2019. Fodd bynnag, mae cyfran yr atgyfeiriadau achosion IM yn dal i fod yn llai na 3% o'r holl ddatgeliadau a wneir. Mae dadansoddiad llawn o sut y cwblhawyd yr achosion anghydfod IM ar gyfer 2023 isod.

Nid oes unrhyw argymhellion newydd yn yr Adroddiad Blynyddol hwn ac mae holl Argymhellion blaenorol yr IM bellach wedi'u cau.



Julia Wortley

Monitor Annibynnol

Pwerau y mae'r Monitor Annibynnol yn gweithredu oddi tanynt

Penodir y Monitor Annibynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 119B o Ddeddf yr Heddlu 1997 ac mae ganddo bedair dyletswydd statudol.



Un o bedair dyletswydd statudol yr IM yw cyhoeddi Adroddiad Blynyddol, ac un arall yw gwneud argymhellion perthnasol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r ddwy swyddogaeth IM arall yn ymwneud yn uniongyrchol â datgelu gwybodaeth ar Dystysgrif Cofnod Troseddol Manwl person.

Yn unol ag adran 119B o Ddeddf yr Heddlu 1997 rhaid i'r Monitor Annibynnol adolygu sampl o achosion lle mae gwybodaeth nad yw'n ymwneud ag euogfarnau wedi'i chynnwys, neu heb ei chynnwys, ar Dystysgrifau Cofnod Troseddol Manylach o dan adran 113B(4) o'r Ddeddf. Diben yr adolygiadau hyn yw sicrhau y cedwir at Ganllawiau Statudol y Swyddfa Gartref ar ddatgelu a chydymffurfio ag Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR). Yn dilyn yr adolygiadau 'samplu ar hap' hyn, mae'r Monitor Annibynnol yn rhoi adborth i'r heddluoedd perthnasol.

O dan adran 117A o Ddeddf 1997, mae gan y Monitor Annibynnol rôl arall i ystyried yr achosion hynny lle mae person yn credu bod y wybodaeth a ddatgelir gan yr heddlu o fewn Tystysgrif Cofnod Troseddol Manylach naill ai'n amherthnasol i'r gweithlu y mae'n gwneud cais amdano, neu ni ddylid ei datgelu.

Pan wneir cais am Dystysgrif Fanylach, caiff manylion yr ymgeisydd eu hatgyfeirio at unrhyw heddlu a allai gadw gwybodaeth am yr ymgeisydd. Mae hyn yn galluogi'r heddlu i wirio eu cofnodion am unrhyw wybodaeth y maent yn credu'n rhesymol ei bod yn berthnasol i'r diben rhagnodedig y ceisir y Dystysgrif ar ei gyfer ac i ystyried a ddylid ei datgelu. Yn dilyn penderfyniad gan yr heddlu i ddatgelu gwybodaeth, os yw ymgeisydd yn dymuno dadlau yn erbyn perthnasedd a/neu gymesuredd y datgeliad, ymgymerir â cham cyntaf y broses adolygu IM, ar gais yr IM, gan yr heddlu datgelu

perthnasol. Os yw'r ymgeisydd yn anfodlon ar ganlyniad adolygiad yr heddlu, yna caiff yr achos ei atgyfeirio at yr IM am adolygiad annibynnol o'i anghydfod datgelu.

Gweithrediad yr Ysgrifenyddiaeth a swyddogaeth y Monitor Annibynnol


Cyflwynodd Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 gyfrifoldeb y Monitor Annibynnol i adolygu anghydfodau datgelu manylach.

Sefydlwyd Ysgrifenyddiaeth fach i gefnogi'r Monitor Annibynnol i gyflawni'r swyddogaeth hon ym mis Hydref 2012 ac ar hyn o bryd mae ganddi ddau aelod o staff llawn amser. Cyn mis Hydref 2012 a'r newidiadau a gyflwynwyd yn PoFA, dim ond i Brif Gwnstabl yr heddlu perthnasol yr oedd unrhyw un a oedd yn anfodlon ar gywirdeb neu berthnasedd y wybodaeth a oedd yn ymddangos ar eu Tystysgrif fanylach yn gallu apelio. Os oedd yr ymgeisydd yn anfodlon ar ganlyniad hyn, neu eiriad y testun, yna eu hunig opsiwn oedd gofyn am Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad datgelu. Byddai gweithredu o'r fath yn gostus i'r ymgeisydd ac i'r DBS o ran amser ac adnoddau.

Mae rôl y Monitor Annibynnol bellach yn gweithredu fel haen ychwanegol o adolygiad cyn y gall person droi at Adolygiad Barnwrol.

Ers mis Medi 2012 hyd at ddiwedd Rhagfyr 2023, mae'r Monitor Annibynnol wedi derbyn cyfanswm o 2,323 o atgyfeiriadau achos.

Unwaith y daw achos i law, bydd yr Ysgrifenyddiaeth IM yn gofyn i'r heddlu am wybodaeth yn ymwneud â'r achos ac i'r ymgeisydd am unrhyw sylwadau ychwanegol y dymunant eu gwneud. Ar ôl derbyn unrhyw sylwadau pellach, caiff yr achos ei roi i'r Monitor Annibynnol i'w adolygu. Mae papurau achos yn cynnwys y Dystysgrif datgelu a ddarparwyd gan y DBS, deunydd perthnasol gan yr heddlu, ac unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu ddogfennaeth ategol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd.



Wrth adolygu anghydfod, mae'r IM yn dilyn y Canllawiau Statudol ac yn ystyried:

1. A yw'r wybodaeth a ddarparwyd yn gywir
2. A yw'r wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol i'r diben rhagnodedig y cafwyd y dystysgrif ar ei gyfer (ers 2012 mae hyn yn gyffredinol ar gyfer gwaith o fewn y Gweithluoedd 'plant' a/neu 'oedolion' yn hytrach nag ar gyfer rôl benodol); a
3. A ddylai'r wybodaeth gael ei datgelu, gan gynnwys;
 - a) Beth yw nod cyfreithlon y datgeliad?
 - b) A yw'r datgeliad yn angenrheidiol i sicrhau'r nod cyfreithlon hwnnw; a
 - c) A yw'r datgeliad yn gymesur, gan sicrhau cydbwysedd teg rhwng hawliau'r ymgeisydd a hawliau'r rhai y mae'r datgeliad yn ceisio eu diogelu.

Ystyrir yr holl feini prawf yn gyfartal, nid oes unrhyw bwysoli. Unwaith y bydd yr IM wedi gwneud penderfyniad, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn ysgrifennu at yr ymgeisydd, y DBS a Phrif Swyddog perthnasol yr heddlu i roi gwybod iddynt am benderfyniad y Monitor Annibynnol.

Eglurhad

Nid yw'r Monitor Annibynnol yn delio â chwynion cyffredinol cwsmeriaid am y DBS. Ymdrinnir â'r rhain drwy weithdrefn gwyno'r DBS. Rôl yr IM yw ystyried atgyfeiriadau gan ymgeiswyr sy'n dadlau ynghylch cynnwys 'gwybodaeth ychwanegol' yn eu Tystysgrifau datgeliad manylach a gyhoeddir gan y DBS. Mae angen Tystysgrifau o'r fath ar gyfer y rhai sy'n dymuno gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed ac mewn rhai swyddi penodol eraill megis gyrru tacsî.



Atgyfeiriadau
Achos y
Monitor
Annibynnol:
Crynodeb 2023


Mae'r siart isod yn dangos nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y Monitor Annibynnol yn 2023 a sut y cawsant eu datrys wedyn. Dangosir y ffigurau hyn mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol.

Mae 'cynnal' yn cyfeirio at achosion lle mae datgeliad yr heddlu wedi'i gefnogi gan yr IM yn ei gyfanrwydd a heb ei ddiwygio.

Graphic below:

Siart 1 Cynnal/Arall

Cynnal Canlyniad Arall




Mae Siart 2 yn dadansoddi'r categori 'canlyniad arall' (yn Siart 1 uchod), i ddangos yn fanylach sut y cafodd achosion lle na 'chynhaliwyd' y datgeliad eu cwblhau.

Graphic below:

Siart 2 Canlyniad Arall

First line: Wedi'i dynnu yn ôl gan yr Ymgeisydd; Wedi'i dynnu yn ôl gan yr Heddlu; Wedi'i dynnu yn ôl gan y DBS; Gwrthod Adolygu

Second line: Wedi'i ddileu'n Rhannol; Wedi'i ddiwygio gan yr Heddlu; Dileu Popeth; Achos wedi'i ddyddio



Fe fu cynnydd arall yng nghyfanswm yr atgyfeiriadau a wnaed i'r IM eleni. Dyma'r nifer uchaf o achosion o anghydfod a atgyfeiriwyd ar gyfer adolygiad IM ers 2019. Fodd bynnag, ychydig bach yn unig y mae canran y datgeliadau sy'n destun dadl sy'n cael eu hatgyfeirio at yr IM wedi cynyddu. Yn 2022, roedd 2.54% o'r holl ddatgeliadau a wnaed ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn destun dadl ac wedi hynny eu hatgyfeirio at yr IM ar gyfer adolygiad annibynnol. Fodd bynnag, yn 2023 cododd y ganran hon ychydig i 2.76% o'r holl ddatgeliadau a wnaed.

Gyda rhai anghydfodau, gellid egluro'r wybodaeth a ddatgelir trwy ddiwygio. Mewn achosion o'r fath, caiff testun y datgeliad ei ddiwygio gan yr heddlu yn ystod y broses adolygu anghydfod. Mae'r achosion hyn wedi'u categorio yn Siart 2 fel rhai 'wedi'i ddiwygio gan yr heddlu' ac maent yn cyfrif am 45% o'r holl 'ganlyniadau eraill' yn 2023.

Roedd tri achos eleni lle penderfynodd yr ymgeisydd ei fod yn fodlon ar destun y datgeliad fel y'i diwygiwyd gan yr heddlu ac wedi hynny a dynnodd ei gais am adolygiad IM annibynnol yn ôl. Mae'r achosion hyn wedi'u cofnodi yn Siart 2 fel 'Wedi'i dynnu yn ôl gan Ymgeisydd'. Tynnodd yr heddlu'r datgeliad yn ôl ar ôl adolygiad mewn un achos.

Mae gweithdrefn flaenorol yr IM yn parhau i fod yn ei lle o beidio ag adolygu anghydfodau 'y tu allan i amser' pan gânt eu codi fwy na thri mis ar ôl i'r Dystysgrif gael ei chyhoeddi a lle nad yw'r 'diben rhagnodedig' yn bodoli mwyach, neu ei bod yn rhesymol credu hynny. Mae'r achosion anghydfod hyn y tu allan i amser wedi'u cofnodi yn Siart 2 fel "achosion wedi'u dyddio" ac maent yn cyfrif am 27% o'r holl "ganlyniadau eraill" yn 2023.


Gweithluoedd

Mae Siart 3 (isod) yn darparu cymhariaeth o'r gweithluoedd perthnasol y mae ymgeiswyr wedi gwneud cais amdanynt. Mae Siart 3 yn dangos bod cyfran yr achosion ym mhob Gweithlu'n parhau'n gyson ar y cyfan â blynyddoedd blaenorol, ond gyda chynnydd yn y ganran o geisiadau 'Gweithlu Oedolion' a 'Gweithlu Plant', gyda gostyngiad cyfatebol yn y Gweithlu/Gweithluoedd Plant ac Oedolion. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o anghydfodau (36% o atgyfeiriadau achosion IM) yn dal i fod gan ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais am y gweithlu/gweithluoedd Plant ac Oedolion).

Graphic below:

Siart 3 Gweithlu %

Plant; Oedolion; Y ddau; Arall



Sylwer: Ni chofnodwyd unrhyw anghydfodau yn y categori 'Gweithlu Arall' yn 2012 na 2013 gan fod Gyrwyr Tacsî yn cael eu hystyried fel rhan o'r gweithlu Plant yn ystod y blynyddoedd hynny.

Atodiad A:



Home Office

Jess Phillips MP
Y Gweinidog dros Ddiogelu a Thrais
yn erbyn Menywod a Merched

2 Marsham Street
Llundain SW1P 4DF
www.gov.uk/home-office

Julia Wortley
Monitor Annibynnol

Trwy E-bost yn unig:

22 Hydref 2024

Annwyl Julia,

Diolch am eich Adroddiad Blynyddol 2023 a fydd yn cael ei gyhoeddi ar Gov.uk cyn bo hir. Roedd eich adroddiad yn rhoi trosolwg defnyddiol o'ch gwaith yn 2023 gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys unedau datgelu rhanbarthol, heddluoedd a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Rwyf yn sylwi nad ydych wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd yn yr adroddiad hwn a'ch bod wedi cau'r argymhelliad olaf sy'n weddill o adroddiadau blynyddol blaenorol fel 'rhannol gyflawn'.

Yr eiddoch yn gywir,

Jess Phillips AS
Y Gweinidog dros Ddiogelu a Thrais yn Erbyn Menywod a Merched

Atodiad B: Tabl o argymhellion blaenorol

Argymhelliad	Blwyddyn gwneud	Statws	Sefyllfa bresennol
Iechyd Meddwl	2013	Wedi'i dderbyn	Cyflawn Cyhoeddwyd canllawiau Statudol Diwygiedig ar gyfer achosion iechyd meddwl ym mis Awst 2015.
Galwedigaethau Cartref	2013	Wedi'i dderbyn yn Rhannol	Cyflawn Diwygiodd y DBS y canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac 'RB' yn 2015 a hyrwyddwyd hyn yn Newyddion DBS.
Gweithlu v Y Swydd y gwneir Cais amdani	2013	Heb ei Dderbyn	Codwyd y mater eto yn Adroddiad Blynyddol 2014 a chafodd yr ymateb blaenorol ei ailadrodd.
Cyrff Cofrestredig	2013	Wedi'i dderbyn	Cyflawn Gweithiodd y DBS gyda NACRO a CIPD i ddatblygu canllawiau i gyflogwyr ar sut i asesu a thrin gwybodaeth ar dystysgrif datgelu.
Terfyn amser statudol ar gyfer anghydfodau	2014	Wedi'i dderbyn. Caewyd fel 'Rhannol Gyflawn' yn 2024 gyda chyhoeddiad y Pedwerydd Argraffiad o Ganllawiau Datgelu Statudol.	Rhannol Gyflawn Mae angen Deddfwriaeth Sylfaenol Newydd i gyflawni'r argymhelliad hwn.
Proses ffurfiol i adolygu argymhellion	2014	Wedi'i dderbyn	Cyflawn Strwythur cyfarfodydd yn ei le.
Unedau Datgelu'r Heddlu i gael mynediad at Drawsgriadau Llys	2015	Wedi'i dderbyn	Cyflawn Polisi a chanllawiau wedi'u hailgyhoeddi i ddarparwyr trawsgriadau llys.
Datblygu canllawiau ar Ddatgeliadau Trydydd Parti	2015	Wedi'i dderbyn	Cyflawn Mae NPCC a'r Swyddfa Gartref wedi datrys y materion allweddol.

Diwygio'r Canllawiau Datgelu Statudol	2019	Wedi'i dderbyn	Cyflawn Cyhoeddwyd Canllawiau Datgelu Statudol Diwygiedig ym mis Tachwedd 2021.
---------------------------------------------	------	----------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------